# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at Canlyniad yr Ymgynghoriad ar y Polisi o uno'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 8 Mehefin 2005

**At Owen John Thomas:**

Ysgrifennaf mewn ymateb i'r pwynt a godoch ar lawr y Siambr yn ystod y ddadl a gynhaliwyd ar uno'r CCNCau ar 8 Mehefin.

Roeddech yn cyfeirio at sefydlu pwerdy ar gyfer y Gymraeg yn sgil yr uno. Yn sicr bydd dod â Bwrdd yr Iaith i galon y Llywodraeth yn atgyfnerthu'r gwaith o ddatblygu a hyrwyddo'r Gymraeg ac yn hwyluso prif-ffrydio'r iaith ar draws pob rhan o'r Llywodraeth.

Mae'r strwythur ar gyfer yr Adran Addysg a Dysgu Gydol Oes newydd ei gyhoeddi. Gellir gweld y strwythur ar ein gwefan ac fe welwch bod lle amlwg i'r Gymraeg ynddo.